Mae Siân yn falch o beth mae'n wneud

Yn 2016, cafodd Siân ei chyfeirio at Gweithffyrdd+. Penodwyd mentoriaid, Hannah a Nigel, yn arbennig ar ei chyfer hi er mwyn cynnal sesiynau un-i-un, a gwelwyd yn fuan fod gan Siân botensial mawr.

Gyda chefnogaeth barhaus Hannah, Nigel, ac un o weinyddwyr Gweithffyrdd+, Daniel Martin, roedd Siân yn ffynnu o fewn y grŵp gwirfoddol, gan ddatblygu ei sgiliau digidol a chyfrannu llawer yn gymdeithasol hefyd.

Mae Siân yn angerddol dros wella ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â hygyrchedd i'r anabl, a chanddi ddiagnosis o awtistiaeth ei hun. A gyda chymorth Gweithffyrdd+, cafodd y gefnogaeth berffaith i'w galluogi hi i wneud hynny. Defnyddiwyd brwdfrydedd Siân dros amlygu gwybodaeth am hygyrchedd anabl er mwyn adeiladu gwefan newydd www.AccessPembrokeshire.co.uk. Crëwyd y wefan er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r cyfleusterau sydd ar gael i'r anabl mewn mannau sector breifat a sector gyhoeddus yn Sir Benfro, yn ogystal â'u hygyrchedd.

Roedd cyfraniad Siân mor werthfawr fel ei bod hi bellach yn cael ei chyflogi 3 awr yr wythnos i weithio ar y wefan.

Llwyddodd Nigel i sicrhau safle gwirfoddoli i Siân o fewn Cyngor Sir Penfro hefyd, lle mae hi'n gweithio fel gweinyddydd. Wedi rhai wythnosau o wirfoddoli, cynigiodd y Cyngor swydd barhaol 16 awr yr wythnos i Siân. Erbyn hyn, mae Sian yn fwy annibynnol nag y bu hi erioed o'r blaen.

Dywedodd, ***"Rwy'n gwneud rhywbeth sy'n rhoi boddhad mawr i mi. Mae pobl Gweithffyrdd+ yn glen iawn, ac maent wedi bod yn wych wrth roi cymorth i mi wneud yr hyn yr wyf yn angerddol amdano. Rwy'n falch iawn o'r gwaith yr wyf yn ei wneud, ac mae fy nheulu'n falch iawn hefyd. Byddwn yn argymell Gweithffyrdd+ i unrhyw un sy'n awyddus i wneud y gorau o'u bywydau."***

Mae Gweithffyrdd+ yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth am brosiect Gweithffyrdd+, ffoniwch **01437 776609**, anfonwch e-bost at **workwaysplus@pembrokeshire.gov.uk** neu ewch i **www.workways.wales**.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund